FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Gwynedd

20 - 24 Medi 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith fwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r archwiliad llawn yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Cydnabyddir y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**6**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**11**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**12**
6	Cyfleusterau ac Offer	**14**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**16**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**20**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**22**
10	Cyngor i Fusnesau	**23**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**24**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**26**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**28**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**29**
15	Gorfodaeth	**31**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**33**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**35**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**36**
19	Monitro Mewnol	**37**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**39**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**40**
	Atodiad	
A.	Geirfa	**42**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Gwynedd o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Cyngor Gwynedd. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli rhwng 20 – 24 Medi 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol.

1.6 Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.7 Awdurdod Unedol yng ngogledd-orllewin Cymru yw Cyngor Gwynedd, yn cynnwys ardal o ryw 2548 cilomedr sgwâr sy'n ymestyn i'r tir o arfordir gogledd Cymru, ac sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Barc Cenedlaethol Eryri.

1.8 Rhyw 116,400 yw poblogaeth breswyl Gwynedd, ond mae poblogrwydd yr ardal gyda thwristiaid, a lleoliad sefydliadau addysg uwch yn yr ardal,

yn arwain at boblogaeth dros dro sylweddol, a adlewyrchir gan nifer y busnesau arlwyo a busnesau bwyd eraill. Roedd natur dymhorol yr ardal, yn ogystal â'r gyfran uchel o gyflenwadau dwr preifat i fusnesau, yn creu heriau penodol i'r Awdurdod wrth ystyried cyflwyno gwasanaeth. Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi dechrau cynllunio ar gyfer y baich gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn ei diriogaeth ym mis Awst 2005.

1.9 Cofrestrir mwy na 2300 o fusnesau bwyd a 46 o fusnesau bwydydd anifeiliaid gyda'r Awdurdod. Mae busnesau bwyd yn cynnwys ystod eang o fathau o fusnesau, gan gynnwys adwerthu, gweithgynhyrchu, arlwyo a phrosesu. Cymeradwyir un ar ddeg o sefydliadau o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

1.10 Mae cynhyrchu cregynbysgod yn ddiwydiant lleol pwysig, ac mae'r ardal yn cynnwys un o gynhyrchwyr cregyn gleision mwyaf y Wlad, sy'n cael eu hallforio ar hyd a lled y byd.

1.11 Cyfrifoldeb Adain Iechyd yr Amgylchedd yw gorfodi cyfraith hylendid bwyd, a chyfrifoldeb yr Adain Safonau Masnach yw gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Mae'r ddwy Adain yn rhan o Gyfarwyddiaeth Adnoddau'r Awdurdod.

1.12 Mae ardal ddaearyddol gymharol fawr Gwynedd, a'r pellter rhwng rhai cymunedau, wedi achosi i'r Awdurdod sefydlu swyddfeydd ardal i wella hygyrchedd, ac i agor cyfleusterau a gwasanaethau i drigolion ac eraill. Gweithreda staff Iechyd yr Amgylchedd a staff Safonau Masnach o swyddfeydd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

1.13 Lleolir swyddogion arweiniol yr Awdurdod ar gyfer gorfodi hylendid bwyd a gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yng Nghaernarfon.

1.14 Mae Cynllun Gwasanaeth 2002-03 (yr un diweddaraf sydd ar gael) yn nodi bod gan yr Awdurdod 11.25 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, sy'n cynnwys staff Iechyd yr Amgylchedd a staff Safonau Masnach. Fodd bynnag, rhestrai'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr archwiliad mai dim ond 10.77 aelod o staff FTE oedd, diffyg o 0.48 swyddog FTE.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cyflawni nifer o'i ddyletswyddau mewn ffordd gynhwysfawr, gan gynnwys samplo bwyd, arolygu Safleoedd Cymeradwy a gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref mewn safleoedd safonau bwyd. Hefyd, dangosai'r Awdurdod ymrwymiad i hyfforddi swyddogion a gweithgareddau hyrwyddo.

2.2 Roedd yr Awdurdod wedi awdurdodi swyddogion i wneud gwaith gorfodi hylendid bwyd nad oedd ganddynt gymwysterau priodol. Nid oedd arolygiadau yn cael eu gwneud yn ôl yr amlderau sylfaenol sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac nid oedd llawer o dystiolaeth o orfodi bwydydd anifeiliaid.

2.3 Cryfderau'r Awdurdod

Samplo

Cynhelid samplo safonau bwyd a hylendid bwyd yn unol â pholisi samplo'r Awdurdod. Roedd cofnodion ffeil wedi'u cadw'n dda a chymerwyd camau dilynol priodol.

Cofnodion

Roedd cofnodion safonau bwyd, hylendid bwyd cyffredinol, safleoedd cigyddion Cymeradwy a thrwyddedig, a Rhybuddion Gwella yn fanwl ac o natur gynhwysfawr.

Awdurdod Cartref

Roedd tystiolaeth o weithgareddau a dargedwyd yn safleoedd safonau bwyd yr Awdurdod Cartref. Galluogai hyn yr Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldeb yn Awdurdod Cartref yn effeithiol.

Safleoedd Cymeradwy

Dangosai cwblhau profforma manwl y cynhaliwyd arolygiadau trylwyr a samplo ag iddo ganolbwynt pendant.

Hyfforddiant

Rhoddid llawer o gyfleoedd i swyddogion gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi. Roedd yn amlwg bod y swyddogion hynny a orfodai cyfraith fwyd, ac yr oedd yn ofynnol iddynt fodloni gofynion datblygiad parhaus y Cod Ymarfer, yn gallu gwneud hynny.

Hyrwyddo Diogelwch Bwyd
Dangosai'r Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch bwyd, gan gynnwys cynhyrchu a dosbarthu deunydd addysgiadol dwyieithog yn rhan o ymgyrchoedd a dargedwyd.

2.4 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Hylendid Bwyd
Roedd yr Awdurdod wedi penodi ac awdurdodi nifer o swyddogion o ran gwaith gorfodi hylendid bwyd nad oeddent yn bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Gorfodi Bwydydd Anifeiliaid
Roedd tystiolaeth gyfyngedig bod yr Awdurdod yn cynnal gweithgareddau gorfodi bwydydd anifeiliaid priodol.

Amlder Arolygu Safleoedd
Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal ei arolygiadau ar safleoedd yn ôl yr amlderau sylfaenol sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer Rhif 8 a Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Mae cynnal arolygiadau yn ôl yr amlderau sylfaenol yn sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd eu nodi mewn da bryd.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Cynhwysa'r Cyngor saith deg pum aelod, gyda phymtheg ohonynt yn ffurfio'r Bwrdd, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor. Mae nifer o gynlluniau a strategaethau yn ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor, ac un ohonynt yw Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd.

3.2 Mae gan yr Awdurdod bedair cyfarwyddiaeth strategol, a chyfrifoldeb Adran Weinyddol a Gwarchod y Cyhoedd y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yw cyflwyno'r gwasanaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid. Archwilir gwaith y Gyfarwyddiaeth gan Bwyllgor Adnoddau ac Archwilio Corfforaethol neilltuedig. Ceir arweinydd portffolio ar gyfer gwasanaethau Gofal Cwsmeriaid a Gwarchod y Cyhoedd.

3.3 Nodai Cynllun Cyfarwyddiaeth 2004-05 nifer o amcanion, gan gynnwys:

- Hyrwyddo iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr i'r ardal, ac amddiffyn yr amgylchedd drwy sicrhau gwasanaeth gwarchod y cyhoedd sydd yn effeithiol;

- Sicrhau buddsoddiad priodol yn ased pwysicaf y Cyngor – sef ei weithwyr – drwy weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol…a fydd yn ei thro yn hwyluso gallu gweithwyr y Cyngor i gynnig gwasanaethau o'r ansawdd uchaf;

- Sefydlu deialog rhwng y Cyngor a'i randdeiliaid drwy'r cyfryngau, cynnig gwybodaeth ac ymgynghori helaeth.

3.4 Cynhyrchwyd Cynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2002-03 a gynhwysai orfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, ac a gynhwysai gysylltiadau i amcanion corfforaethol yr Awdurdod. Y nodau a'r amcanion a gynhwysid yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd 2002-03 oedd;

- Hyrwyddo arfer da o ran gweithgynhyrchu, trin, cyflenwi a bwyta bwyd a bwydydd anifeiliaid yng Ngwynedd;

- Diogelu defnyddwyr a masnachwyr rhag arferion anniogel ac annheg o ran bwyd a bwydydd anifeiliaid trwy geisio sicrhau bod yr holl fwyd a bwydydd anifeiliaid a gyflenwir a/neu a gynhyrchir yng Ngwynedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

3.5 Cysylltai'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd ag amcanion canlynol y Cyngor:

- Cynnig gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael, yn unol ag anghenion a dyheadau'r bobl;

- Datblygu cymunedau diogel a chynaliadwy mewn trefi ac yng nghefn gwlad trwy gefnogi darpariaeth gymunedol a gwella amodau byw.

3.6 Mae'r Cytundeb Fframwaith yn caniatáu hyblygrwydd i awdurdod gynnal ei arddull ei hun o gynllunio gwasanaeth corfforaethol, ond dylai'r awdurdod sicrhau y caiff gofynion gwybodaeth yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith eu cynnwys, a'u bod yn adnabyddadwy ar wahân, yn eu dogfennau.

3.7 Yn fras, lluniwyd y Gwasanaeth Cynllunio Bwyd yn unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith.

3.8 Roedd gan yr Awdurdod nifer o Gynlluniau Busnes a Chynlluniau Gwella o ran cyfnodau cyn ac ar ôl ailstrwythuro. Er bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth ynghylch dangosyddion perfformiad, nid oeddent yn cyfeirio o gwbl at roi sylw i unrhyw amrywiad o fodloni cynlluniau blynyddoedd blaenorol, ac roedd yn aneglur beth a gyflwynwyd i'w gymeradwyo gan aelodau.

3.9 Nodai Cynllun Cyfarwyddiaeth 2004-05 y gwnaed 82% o arolygiadau hylendid bwyd uchel eu risg gan yr Awdurdod, ac y gwnaed 40% o arolygiadau safonau masnach uchel eu risg a risg canolig. Y targedau ar gyfer 2004-05 oedd 100% a 40% yn y drefn honno.

3.10 Nodai Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002-03 y byddai'r fath gynlluniau'n cael eu cynhyrchu yn flynyddol. Er y cymeradwywyd y Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002-03 hwn gan Fwrdd y Cyngor ar 23 Ebrill 2002, nid oedd wedi cael ei ddiweddaru ac, felly, roedd wedi dyddio mewn rhai meysydd, gan gynnwys proffiliau safleoedd a manylion am y rhaglenni arolygu arfaethedig. Ni chafwyd unrhyw Gynlluniau Cyflwyno Gwasanaeth Bwyd wedi hynny.

3.11 Ni adolygwyd perfformiad y Cynllun Gwasanaeth Bwyd a'i adrodd i'r Aelodau.

Argymhellion

3.12 Dylai'r Awdurdod:

(i) Lunio dogfen a gweithredu Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth, yn unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cynnal adolygiad perfformiad, ar sail y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth, o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid dogfennu'r adolygiad a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan aelodau. [Y Safon – 3.2].

(iii) Sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw amrywiad o ran bodloni'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd gan yr Awdurdod system reoli ddogfenedig i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysid yn Y Safon yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.

4.2 Cynhyrchwyd polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi hylendid bwyd a gynhwysid yn Y Safon, er mai dim ond yn ddiweddar y drafftiwyd rhai ohonynt.

4.3 Cedwid cofnod cynhwysfawr o holl weithdrefnau dogfenedig gorfodi hylendid bwyd, a ddangosai ddyddiadau cyhoeddi, a dyddiadau a manylion penodol yr holl ddiwygiadau.

4.4 Roedd polisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Adain Safonau Masnach yn rhan o Lawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid Safonau Masnach.

4.5 Roedd copïau rheoledig o ddogfennau corfforaethol ar gael i'r holl swyddogion ar y Fewnrwyd gorfforaethol.

4.6 Roedd gan Swyddogion fynediad at gopïau cyfredol o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelu Bwyd, Canllawiau Diwydiant, a dogfennaeth briodol arall.

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ddrafft, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2004, ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran gorfodi hylendid bwyd.

5.2 Roedd y weithdrefn ddogfenedig a oedd yn berthnasol i awdurdodi swyddogion i orfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn rhan o Lawlyfr Ansawdd Safonau Masnach.

5.3 Cynhwysai Cynllun Dirprwyo'r Awdurdod bwer i Bennaeth Gwasanaeth awdurdodi swyddogion i orfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd. Yn achos Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, Pennaeth y Gwasanaeth oedd Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau.

5.4 Roedd y Cyfarwyddwr Strategol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am awdurdodi swyddogion ymhellach i'r Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd perthnasol, a oedd wedi llofnodi'r dogfennau awdurdodi swyddogion yn briodol.

5.5 Ni awdurdodwyd swyddogion i orfodi Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd na Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd.

5.6 Gwnaed nifer o arolygiadau gan swyddogion nad oedd yn gymwys yn unol â Chod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.7 Roedd rhai swyddogion yn Adain Iechyd yr Amgylchedd, nad oedd eu dyletswyddau arferol yn cynnwys gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd, er hynny, wedi'u hawdurdodi i wneud hynny. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y swyddogion hyn yn bodloni'r gofynion o ran cymwysterau, na'u bod wedi gwneud y lleiafswm o 10 awr o hyfforddiant datblygiad parhaus y flwyddyn ynghylch bwyd sy'n ofynnol gan God Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y swyddogion hyn wedi cynnal unrhyw weithgaredd gorfodi hylendid bwyd.

5.8 Roedd yr Awdurdod wedi penodi swyddogion arweiniol priodol â chyfrifoldeb am orfodi cyfraith diogelwch bwyd a safonau bwyd, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac am orfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

5.9 Roedd y Cynllun Hyfforddi a'r Rhaglen Hyfforddi ddogfenedig yn rhan o gynllun arfarnu a datblygu corfforaethol yr Awdurdod, a ddefnyddid yn gyfnodol i nodi anghenion hyfforddi unigol a'u cofnodi gan Reolwr perthnasol Gwarchod y Cyhoedd.

5.10 Roedd tystiolaeth yr arfarnwyd staff o dan y cynllun corfforaethol ac yr anogid swyddogion i ddilyn gweithgareddau datblygiad parhaus, a'u bod yn cael cyfleoedd yn aml i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi a datblygu.

5.11 Roedd cofnodion ynghylch hyfforddiant a wnaed yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, a dangosai cofnodion o ran cymwysterau a hyfforddiant bod swyddogion a oedd yn gorfodi cyfraith fwyd yn briodol o gymwys, a'u bod wedi cael o leiaf y lleiafswm o 10 awr o hyfforddiant datblygiad parhaus y flwyddyn.

5.12 Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rheolwyr yn cadw cofnodion hyfforddi unigol ac yn monitro cydymffurfiad â gofynion datblygiad parhaus mwyach, a'i gwnâi'n anodd i reolwyr sicrhau bod y gofynion sylfaenol yn cael eu bodloni.

5.13 Roedd swyddogion a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo ac arolygu sefydliadau o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch, ac am arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, wedi derbyn hyfforddiant o ran egwyddorion ac ymarfer HACCP.

5.14 Hyfforddwyd yr holl swyddogion a awdurdodwyd i gynnal arolygiadau ar fusnesau bwyd â chanddynt radd risg 'uchel' ar gyfer safonau bwyd, a busnesau bwyd â chanddynt systemau sicrhau ansawdd dogfenedig, i lefel prif aseswr sicrhau ansawdd .

5.15 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2002-03 y neilltuwyd cyllideb hyfforddi o £300 y flwyddyn i swyddogion diogelwch bwyd a £400 y flwyddyn i swyddogion safonau bwyd. Gellid peri bod arian ychwanegol ar gael pe bai angen.

Argymhelliad

5.16 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod gan ei swyddogion gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas, yn unol â'u hawdurdodiad a'u dyletswyddau, ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 5.3]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Nodai'r Weithdrefn Galibro ddogfenedig, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2004, y weithdrefn ar gyfer cynnal a chalibro offer monitro a mesur tymheredd a'u gwaredu o ganfod eu bod yn ddiffygiol.

6.3 Hefyd, cynhwysai'r weithdrefn ddogfenedig wiriadau misol ar dymheredd oergelloedd a rhewgelloedd a ddefnyddid i storio samplau bwyd a samplau cwynion am fwyd.

6.4 Dangosai cofnodion calibro y calibrwyd offer monitro tymheredd, capanau prawf, a'r thermomedr cyfeirio yn fisol, fel sy'n ofynnol gan y weithdrefn ddogfenedig. Fodd bynnag, dim ond o fis Mawrth 2004 yr oedd cofnodion calibro ar gael, ac roedd cofnodion yn y swyddfeydd ardal yn anghyflawn.

6.5 Yn gyffredinol, ystyrid bod cronfa ddata'r safleoedd yn gallu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Fodd bynnag, nododd yr archwiliad anawsterau â'r ffordd y gweithredid y system a effeithiai ar allu'r Awdurdod i roi'r wybodaeth ofynnol i Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.6 Nodwyd bod yr Awdurdod eisoes wedi penderfynu nad oedd ei gronfa ddata yn bodloni ei ofynion ac, adeg yr archwiliad, roedd yn y broses o drosglwyddo i system newydd, ac roedd staff yn cael eu hyfforddi ynghylch sut i'w defnyddio. Pwysleisid gwirio cywirdeb y data cyn ei drosglwyddo.

6.7 Aseinid lefelau mynediad defnyddwyr yn ôl rôl unigol pob swyddog. Gweithredid systemau diogelwch a systemau wrth gefn dyddiol i leihau'r risg o lygriad neu golli gwybodaeth a ddelid ar y gronfa ddata.

Argymhellion

6.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cofnodir yr holl wybodaeth berthnasol am yr offer.
[Y Safon – 6.3]

(ii) Sicrhau y gweithredir ei feddalwedd gyfrifiadurol yn y fath fodd fel y gall ddarparu gwybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth.
[Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002-03 y seilid rhaglenni arolygu arfaethedig hylendid bwyd a safonau bwyd yr Awdurdod ar asesiadau risg, yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd. O dan y Cynllun Gwasanaeth, dylid fod wedi blaenoriaethu busnesau yn y categorïau safonau bwyd uchel eu risg a risg canolig, i'w harolygu.

Hylendid Bwyd

7.2 Cynhwysai'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer Arolygiadau Diogelwch Bwyd a Raglennwyd, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2004, arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol, ond nid arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion nac arolygu a chymeradwyo sefydliadau sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.3 Gwiriwyd cofnodion a oedd yn ymwneud â 12 o safleoedd a arolygwyd o dan reoliadau hylendid cyffredinol, 7 Safle Cymeradwy a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a 9 o siopau cigyddion trwyddedig. Dangosai'r rhain yr arolygwyd y busnesau hyn yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan radd risg hylendid bwyd Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.4 Fodd bynnag, dangosai adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad bod 114 o arolygiadau hylendid bwyd yn hwyr, gan gynnwys 82 yng nghategorïau risg A i C. Ni arolygwyd un ar hugain o safleoedd bwyd ar y gronfa ddata, na graddio eu risg.

7.5 Nid oedd arolygiadau hylendid bwyd ar rai safleoedd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan radd risg hylendid bwyd. Hefyd, roedd yn amlwg nad oedd y polisi a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, sef rhoi blaenoriaeth i arolygiadau ar fusnesau risg uwch o flaen y rheiny â risg is, yn cael ei weithredu'n effeithiol.

7.6 Defnyddid ffurflen arolygu safonol i gofnodi arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol, a oedd yn helpu sicrhau y cynhelid ac y cofnodid arolygiadau yn systematig, ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac arweiniad arall a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd copi a lenwyd o'r ffurflen adrodd am arolygiad ar ffeil o ran yr holl arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol a wiriwyd.

7.7 Dangosai cofnodion ynghylch y 9 safle yr adroddodd yr Awdurdod mewn dogfennaeth cyn-arolygu eu bod yn siopau cigyddion trwyddedig, nad oedd 3 ohonynt wedi'u trwyddedu mwyach. Cynhwysai cofnodion y 6 safle arall dystiolaeth yr aseswyd cydymffurfiad â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) ac y seiliwyd y

penderfyniad i ganiatáu trwydded ar asesiad o'r holl feini prawf perthnasol.

7.8 Cynhwysai cofnodion o ran 7 o'r sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, wybodaeth gynhwysfawr a manwl am gyfleusterau, gweithrediadau'r safleoedd, cynhyrchion a gynhyrchwyd, a'r samplo a wnaed. Dangosai dogfennau arolygu a chymeradwyo a lenwyd y seiliwyd penderfyniadau i gymeradwyo ar feini prawf perthnasol.

Argymhellion

7.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennir o dan y system graddio arolygiadau, a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Estyn, cynnal a gweithredu ei weithdrefnau dogfenedig ar gyfer arolygu hylendid bwyd ar gyfer ystod lawn yr arolygiadau a wneir ganddo.
[Y Safon – 7.4]

Safonau Bwyd

7.10 Cynhwysai Llawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid Safonau Masnach y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer cynnal arolygiadau safonau bwyd a chamau dilynol.

7.11 Archwiliwyd cofnodion o ran 11 o arolygiadau safonau bwyd a wnaed yn ystod y 12 mis cyn yr archwiliad. Dangosai'r rhain mai dim ond 5 ohonynt a arolygwyd yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan radd risg safonau bwyd Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.12 Yn ystod yr archwiliad, sefydlwyd nad oedd y rhaglen arolygu safonau bwyd arfaethedig yn cael ei weithredu'n effeithiol. Nid oedd arolygiadau safonau bwyd yn cael eu gwneud yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan y radd risg safonau bwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac ni roddid blaenoriaeth i arolygu busnesau uwch eu risg.

7.13 Fodd bynnag, golygai anhawster o ran tynnu gwybodaeth o'r gronfa ddata nad oedd yn bosibl cynhyrchu rhestr gynhwysfawr o arolygiadau safonau bwyd a oedd yn hwyr adeg yr archwiliad.

7.14 Defnyddid ffurflen adroddiad arolygu safonol i gofnodi manylion arolygiadau safonau bwyd.

Argymhelliad

7.15 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennwyd o dan y system graddio arolygiadau a nodwyd yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

Bwydydd Anifeiliaid

7.16 Roedd y weithdrefn ddogfenedig ynghylch arolygu bwydydd anifeiliaid yn rhan o Lawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid Safonau Masnach.

7.17 Er bod 48 o fusnesau ar gofrestr sefydliadau neu gyfryngwyr yr Awdurdod o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999, ymddangosai mai dim ond 2 o'r busnesau hyn a arolygwyd. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi gwneud ymdrech gyfyngedig i gael gwybodaeth gan ffermydd, a thrwy hynny ddiweddaru'r gofrestr ac adlewyrchu asesiad cywirach o weithgaredd cymysgu ar ffermydd.

7.18 Nid oedd yn amlwg fod yr Awdurdod yn ymdrin â'i gyfrifoldebau o ran gorfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid yn effeithiol yn unol â'r targedau a nodwyd yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002-03.

Argymhellion

7.19 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder a nodir mewn arweiniad a gyhoeddir yn ganolog.
[Y Safon – 7.1]

(ii) Asesu cydymffurfiad safleoedd bwydydd anifeiliaid cymeradwy a chofrestredig yn ei ardal â safonau cyfreithiol rhagnodedig.
[Y Safon – 7.3]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Nodwyd polisi'r Awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid yn Llawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid. Nid oedd polisi ar gyfer ymdrin â chwynion am hylendid bwyd neu gwynion am hylendid safleoedd.

8.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2001, a gynhwysai ymchwilio i gwynion am hylendid bwyd. Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ynghylch ymchwilio i gwynion am hylendid safleoedd bwyd.

8.3 Cynhwysid y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn Llawlyfr Ansawdd Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid Safonau Masnach.

8.4 Archwiliwyd cofnodion 7 gwyn am hylendid bwyd, 8 gwyn am safonau bwyd ac un gwyn am fwydydd anifeiliaid a'u cymharu yn erbyn Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.

8.5 Yn gyffredinol, dangosai'r rhain yr ymchwilid i gwynion yn briodol, gan gynnwys cyflwyno samplau cwynion i'w harchwilio mewn labordy, cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, ac arolygu safleoedd busnesau bwyd.

8.6 Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg o'r cofnod bob tro a roddwyd gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad.

8.7 Canfuwyd mai mater pwysau a mesurau a gofnodwyd yn anghywir ar y gronfa ddata oedd y gwyn am fwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

8.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi dogfenedig o ran cwynion am hylendid bwyd a hylendid safleoedd bwyd.
[Y Safon – 8.1]

(ii) Estyn, cynnal a gweithredu ei weithdrefnau i gynnwys ymchwilio i gwynion am hylendid safleoedd bwyd.
[Y Safon – 8.1]

(iii) Sicrhau y rhoddir gwybod i'r holl achwynwyr am ganlyniad ymchwiliadau. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002-03 fod yr Awdurdod yn cefnogi Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS. Adeg llunio'r Cynllun Gwasanaeth yn 2002, nodwyd 20 o fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid gan yr Awdurdod yr oedd yn ymddwyn yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer.

9.2 Cofrestrwyd busnesau yr oedd yn ymddwyn yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar wefan LACORS ar y Rhyngrwyd, er y nodwyd bod y rhestr yn anghyflawn a heb ei diweddaru ers mis Ionawr 2004.

9.3 Nid oedd unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol, ond gweithredid cytundebau anffurfiol â nifer o weithgynhyrchwyr lleol a busnesau bwyd eraill. Yn ogystal ag arolygiadau a raglennwyd, roedd tystiolaeth o weithgarwch samplo a chyngor o ran labelu a materion yn ymwneud â chyfansoddiad.

9.4 Cadarnhâi gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltiad ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, lle'r oedd yn briodol, yn rhan annatod o brosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.5 Roedd gan swyddogion fynediad i gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS ar y Rhyngrwyd ac, felly, gallent nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol perthnasol a chysylltiadau awdurdodau lleol.

9.6 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad fod Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei gweithredu'n effeithiol, ac y gweithredid yn briodol ynghylch ceisiadau am wybodaeth oddi wrth awdurdodau gorfodi eraill.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosai'r Awdurdod ymagwedd ragweithiol at helpu busnesau lleol i gydymffurfio â chyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, a ddangoswyd gan nifer o fentrau a weithredwyd, neu a oedd wrthi'n cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Taflenni a phosteri ynghylch hylendid a diogelwch bwyd;
- Cyngor am fwydydd anifeiliaid;
- Pecyn gwybodaeth HACCP;
- Arweiniad tymhorol ynghylch lladd anifeiliaid;
- Gwybodaeth am ddiogelwch bwyd a dargedwyd ar gyfer arlwywyr Tsieineaidd;
- Defnyddio gwefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fusnesau;
- Cyngor am gynhyrchion cig;
- Cyngor i fusnesau newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor o wneud cais amdano, yn ystod arolygiadau, a thrwy dargedu sectorau busnes bwyd penodol.

10.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i wahodd adborth gan gwsmeriaid ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i helpu llywio datblygu a chyflwyno gwasanaeth.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata o safleoedd a oedd yn destun gorfodaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Ar hap, dewisodd yr archwilwyr 15 o fusnesau o gategorïau mewn cyfeiriadur busnes lleol a ymddangosai fel petai'n cynnwys busnesau bwyd. Cofnodwyd pob un o'r 15 busnes ar y gronfa ddata.

11.3 O'r 15 busnes hyn, cofnodwyd un yn fferm heb unrhyw weithgaredd o ran bwyd, a chofnodwyd bod 2 ohonynt wedi cau yn ddiweddar. Cofnodwyd y gweddill yn gywir yn fusnesau bwyd, ac fe'u cynhwysid yn rhaglenni arolygu arfaethedig yr Awdurdod, fel sydd yn briodol.

11.4 Rhoddodd dau adroddiad a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad ffigurau gwahanol ar gyfer nifer y busnesau a gynhwysid yn y rhaglen arolygu hylendid bwyd. Nodai un adroddiad mai 2036 oedd y ffigur, a nodai'r llall mai 1984 ydoedd. Dangosai'r ddau adroddiad na raddiwyd risg nifer o safleoedd bwyd o ran hylendid bwyd.

11.5 Yn ystod yr archwiliad, cafwyd anhawster tynnu gwybodaeth am orfodi safonau bwyd o'r gronfa ddata. Golygai hyn nad oedd yn bosibl cynhyrchu adroddiadau cyfwerth ar gyfer rhaglen arolygu safonau bwyd yr Awdurdod.

11.6 Roedd yn amlwg o archwilio cofnodion y gronfa ddata ynghylch arolygiadau, cwynion a samplau bwyd na chofnodid manylion am arolygiadau, graddio risg a gweithredoedd eraill yn gywir ar y gronfa ddata bob tro. Ni roddwyd y cod cywir i rai gweithgareddau, a dyblygwyd rhai eraill. Arweiniai hyn at fylchau a gwallau yn hanes y busnesau perthnasol, a gwallau yn y data am weithgaredd gorfodi a anfonwyd gan yr Awdurdod i Asiantaeth Safonau Bwyd.

11.7 Fodd bynnag, cydnabu'r archwilwyr y bu'r Awdurdod yn gwella o ran ymdrin â llawer o'r problemau â'r gronfa ddata a amlygwyd yn ystod yr archwiliad. Hefyd, nodwyd eu bod yn dod at ddiwedd y broses o gyflwyno system rheoli data newydd ar gyfer yr adran.

11.8 Nid oedd mesurau a gynhwysid yn Nogfen Gweithdrefn y Tîm Bwyd ar gyfer y Gronfa Data Bwyd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2002, yn ddigonol i sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir ac yn gyfredol.

Argymhelliad

11.9	Dylai'r Awdurdod: Adolygu, cynnal a gweithredu ei weithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata safleoedd bwyd yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi Samplo Bwyd a Dwr dogfenedig, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002, a nodai ymagwedd yr Awdurdod at samplo bwyd a gynhyrchid, a weithgynhyrchid, a storid, a ddosberthid, yr ymdrinnid ag ef, a adwerthid neu a gâi ei fwyta yn ei ardal. Nid oedd y Polisi'n cynnwys bwydydd anifeiliaid.

Hylendid Bwyd

12.2 Adeg yr archwiliad, roedd y weithdrefn ddogfenedig fanwl ar gyfer samplo hylendid bwyd a diogelwch bwyd ar ffurf ddrafft. Roedd rhaglen samplo hylendid bwyd a adolygid bob chwarter, a gynhwysai samplo bwyd a gynhyrchid yn lleol a chyfranogi mewn arolygon a gyd-drefnwyd.

12.3 Archwiliwyd cofnodion 10 o samplau hylendid bwyd a gymerwyd yn anffurfiol. Dangosai'r rhain y targedwyd samplo at ystod o gynhyrchion lleol, ac i'r swyddog samplo gymryd samplau yn unol â'r rhaglen samplo hylendid bwyd arfaethedig.

12.4 Roedd canlyniadau samplo ar gael ym mhob achos, a chymerwyd camau dilynol priodol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol. Cynhwysai camau dilynol gymryd samplau ychwanegol, ymweld â safleoedd a'u harolygu, a chysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol lle bo'n ofynnol.

12.5 Mewn dogfennaeth cyn-arolygu, adroddodd yr Awdurdod y cafwyd chwe achos o ildio bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio yn ystod y cyfnod cyn yr archwiliad. Fodd bynnag, datgelodd archwiliad o'r cofnodion am y gweithgareddau hyn mai dim ond un o'r rhai a adroddwyd a oedd yn ymwneud ag ildio bwyd yn wirfoddol i'r Awdurdod i'w ddinistrio.

12.6 Yn yr achos hwn, roedd y cofnod yn ddryslyd ac yn ei wrth-ddweud ei hun, ac nid oedd yn bosibl pennu dull, lleoliad, dyddiad nac amser gwaredu'r bwyd perthnasol.

12.7 Cofnodwyd un achos ffurfiol o atafaelu a chadw bwyd ar y gronfa ddata, ar y cyd â chyflwyno Rhybudd Gwahardd Brys. Fodd bynnag, ni allai'r Awdurdod ddod o hyd i unrhyw gofnodion neu ddogfennaeth arall a oedd yn ymwneud â'r achos hwn o atafaelu a chadw.

12.8 Nid oedd rhaglen samplo safonau bwyd neu fwydydd anifeiliaid ddogfenedig ac, felly, nid oedd yn bosibl pennu a samplwyd safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn unol â rhaglen arfaethedig.

12.9 Er hynny, roedd yn amlwg bod samplo safonau bwyd yn digwydd, a dargedwyd at amrywiaeth o gynhyrchion a weithgynhyrchid ac a gynhyrchid yn lleol, gyda chyfranogiad mewn arolygon a gyd-drefnwyd. Hefyd, roedd gweithgaredd samplo yn amlwg o ran cwynion am fwyd a chyfeiriadau Awdurdod Cartref.

12.10 Archwiliwyd cofnodion 8 o samplau safonau bwyd. Roedd canlyniadau samplo ar gael ym mhob achos ac, yn gyffredinol, cymerwyd camau dilynol priodol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol.

12.11 Dangosai cofnodion 2 sampl bwydydd anifeiliaid a gymerwyd yn ddiweddar bod bwydydd anifeiliaid yn cael eu samplo, er nad oedd tystiolaeth o unrhyw gamau dilynol ynghylch yr un sampl yr adroddwyd ei fod yn anfoddhaol.

12.12 Penodwyd Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol, a dirprwyon priodol, gan yr Awdurdod, yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a phwerau dirprwyedig yr Awdurdod.

Argymhellion

12.13 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff y polisi samplo ei estyn i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 12.4]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen samplo ddogfenedig ar gyfer safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 12.4]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Datblygwyd y weithdrefn ar y cyd gan yr Awdurdod a sefydliadau perthnasol eraill, yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Mabwysiadwyd y cynllun rheoli achosion yn ffurfiol gan Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod ym mis Chwefror 2001. Adeg yr archwiliad, roedd y cynllun yn cael ei adolygu.

13.2 Archwiliwyd tri digwyddiad a fodlonai'r diffiniad o achos o wenwyn bwyd. Ymchwiliwyd i bob un o'r tri achos yn drylwyr, cymerwyd samplau a sbesimenau priodol yn ôl y gofyn, a chymerwyd camau dilynol ynghylch gwybodaeth a gafwyd trwy gyfrwng cyfweliadau achos a chyswllt.

13.3 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Achosion, roedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002.

13.4 Archwiliwyd rhybuddion o ran 10 achos achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Dangosai'r rhain, yn gyffredinol, i achosion gael eu hymchwilio'n drylwyr a'u cofnodi yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig. Fodd bynnag, mewn 2 achos, golygai bylchau yn y wybodaeth a gofnodwyd ei fod yn amhosibl pennu a gymerwyd camau priodol.

13.5 Roedd yn amlwg bod yr Awdurdod wedi cydweithio'n effeithiol ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill wrth ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, a'u rheoli.

13.6 Cedwid cofnodion yn system archifau'r Awdurdod am o leiaf 6 blynedd.

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd. Derbynnid Rhybuddion Perygl Bwyd trwy gyfrwng negeseuon e-bost yn y pencadlys a'r swyddfeydd ardal.

14.2 Roedd polisi a gweithdrefn dogfenedig ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd a rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am achosion lleol. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith, ac roedd angen adolygu hyn.

14.3 Archwiliwyd cofnodion sampl o Rybuddion Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y 6 mis cyn yr archwiliad. Roedd nifer o'r Rhybuddion Perygl Bwyd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu.

14.4 Roedd cofnodion yr holl Rybuddion Perygl Bwyd a wiriwyd ar gael ar ffurf electronig yn yr Adain Safonau Masnach. Dangosai cofnod y gronfa ddata yr ymateb a'r canlyniad, gan gynnwys y rheiny lle nad oedd angen gweithredu.

14.5 Pan fu angen gweithredu ynghylch Rhybudd Perygl Bwyd, yn gyffredinol, seilid y camau hyn ar wybodaeth leol, ac roeddent yn ymddangos yn briodol. Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg i ledaenu gwybodaeth am Rybuddion Perygl ac adalw cynhyrchion pan fu'n ofynnol gwneud hynny.

14.6 Yn Adain Iechyd yr Amgylchedd, er y cedwid copïau o Rybuddion Perygl Bwyd mewn ffeil, mewn rhai achosion roedd yn anodd pennu'r camau a gymerwyd a'r canlyniad.

14.7 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau lleoledig difrifol neu broblemau diogelwch bwyd ehangach yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, y byddai wedi'i gwneud yn ofynnol rhoi gwybod amdanynt i Asiantaeth Safonau Bwyd, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 16 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran y System Rhybudd Perygl Bwyd.

Argymhellion

14.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer Rhybuddion Perygl Bwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith. [Y Safon – 14.1]

(ii) Dogfennu ei ymateb i bob un o'r Rhybuddion Perygl Bwyd y mae'n eu derbyn, a'u canlyniadau, yn llawn. [Y Safon – 14.3]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi a Gweithdrefnau Gorfodi dogfenedig o ran Gwarchod y Cyhoedd, a gymeradwywyd gan Fwrdd Cyngor yr Awdurdod ym mis Mawrth 2002. Roedd ar gael ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd ac o Adeiladau Dinesig.

15.2 Roedd yn amlwg bod swyddogion yn defnyddio cymysgedd o ddewisiadau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd, gan gynnwys llythyrau, Rhybuddion Gwella, cau safleoedd yn wirfoddol ac mewn achos brys, a rhybuddion ffurfiol.

15.3 Gwnaed penderfyniadau gorfodi yn unol â'r Polisi Gorfodi, a chan gymryd amgylchiadau penodol pob achos i ystyriaeth. Mewn achosion a archwiliwyd, ymddangosai fod y penderfyniadau a wnaed yn gymesur ac yn briodol.

15.4 Dywedodd yr Awdurdod iddo gymryd y camau gorfodi canlynol yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

5 rhybudd ffurfiol;
4 Rhybudd Gwahardd Brys;
12 Rhybudd Gwella;
2 achos o gau safleoedd bwyd yn wirfoddol;
6 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

15.5 Archwiliwyd cofnodion o ran 5 rhybudd ffurfiol, 2 Rybudd Gwahardd Brys, 2 achos o gau safleoedd bwyd yn wirfoddol, a 12 Rhybudd Gwella, a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.6 Cyhoeddwyd rhybuddion ffurfiol gan Gyfarwyddwr Tai a Gwarchod y Cyhoedd, rhagflaenydd Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau, ac roedd ffeiliau achos rhybuddion ffurfiol yn gynhwysfawr ac wedi'u paratoi'n dda.

15.7 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwahardd Brys mewn amgylchiadau priodol, er yr ymddangosai y rhoddwyd y dyddiad anghywir ar rai dogfennau, ac nid oedd yn bosibl dod o hyd i rai dogfennau allweddol. Felly, nid oedd yn bosibl pennu a ddilynwyd gweithdrefnau statudol.

15.8 Roedd un o'r gweithredoedd yr adroddodd yr Awdurdod yn achos o gau gwirfoddol yn achos y rhoddwyd y cod anghywir iddo.

15.9 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwella gan swyddogion mewn amgylchiadau priodol, ac roeddent wedi'u hawdurdodi i wneud hynny. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth y cymerwyd camau dilynol ynghylch Rhybuddion

Gwella i sicrhau cydymffurfiad, er na chofnodid y dull o gyflwyno mewn 3 achos.

Argymhelliad

15.10 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir gweithgaredd Gwahardd Brys yn unol â Chod Ymarfer Perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Roedd arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) wedi'u dogfennu'n dda, a chedwid cofnodion manwl ar ffeil ac ar y gronfa ddata.

16.2 Roedd cofnodion ac adroddiadau arolygu ar sefydliadau a gymeradwyid o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch a siopau cigyddion trwyddedig yn gynhwysfawr ac wedi'u cynnal yn dda.

16.3 Cynhwysai cofnodion ffeil a chofnodion cronfa ddata, ffurflenni cais a chofnodion arolygiadau, a manylion y busnesau a'r gweithrediadau a wnaed, a'i gwnâi'n bosibl pennu y seiliwyd penderfyniadau i gymeradwyo neu ganiatáu trwyddedau ar feini prawf perthnasol.

16.4 Cynhwysai cofnodion arolygiadau safonau bwyd broffiliau busnes, disgrifiadau o weithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, cwynion, manylion a chanlyniadau samplo, a chopïau o ohebiaeth.

16.5 Cedwid cofnodion manwl o ran gweithgaredd samplo, a ddangosai y targedwyd samplo yn briodol, ac y cymerwyd camau dilynol ynghylch canlyniadau anfoddhaol i sefydlu'r rhesymau am fethiant a'u datrys.

16.6 Yn gyffredinol, cofnodid gwybodaeth o ran Rhybuddion Gwella a gweithgareddau gorfodi eraill yn fanwl, gan ddangos y dilynwyd y Polisi Gorfodi ac y bodlonwyd gofynion statudol. Fodd bynnag, roedd cofnodion o ran Rhybuddion Gwahardd Brys yn anghyflawn.

16.7 Roedd cofnodion ynghylch calibro offer, atafaelu a chadw bwyd, ac ildio bwyd yn wirfoddol, heb eu cadw cystal. Roedd bylchau mewn rhai cofnodion yn ei gwneud yn amhosibl pennu a ddilynwyd arweiniad swyddogol ac a fodlonwyd gofynion statudol.

16.8 Roedd yng nghofnodion safleoedd a gofrestrwyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999 ddiffyg manylion, ac ni ymddangosai i'r rhan fwyaf ohonynt gael eu hadolygu na'u diweddaru ers i'r Rheoliadau gael eu gweithredu gyntaf ym 1998.

16.9 Rhaid adolygu datganiadau cofrestriadau bwydydd anifeiliaid a chynnal arolygiadau priodol, yn enwedig o ran gweithgaredd cymysgu ar-y-fferm.

Argymhelliad

16.10 Dylai'r Awdurdod:

Gadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer yr holl safleoedd bwydydd anifeiliaid yn ei ardal, ac ar gyfer yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â chyflwyno Rhybuddion Gwahardd Brys, ac ag atafaelu a chadw bwyd, ac ildio bwyd yn wirfoddol. [Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol ddogfenedig.

17.2 Cyhoeddwyd crynodeb o'r weithdrefn gorfforaethol ac roedd ar gael o Adeiladau Dinesig ac ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd.

17.3 Hefyd, roedd gweithdrefn ddogfenedig ar ffurf ddrafft, a nodai'r trefniadau adrannol ar gyfer gweithredu'r weithdrefn gorfforaethol o ran cwynion am y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

17.4 Ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn naill ai Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd na'r Gwasanaeth Safonau Masnach, o ran gorfodi cyfraith fwyd neu fwydydd anifeiliaid, yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth gyson. Cynhwysai'r rhain gyfranogiad yn y canlynol:

- Grwp Bwyd Gogledd Cymru;
- Panel Ansawdd a Mesureg Gogledd Cymru;
- Grwp Cyswllt Cregynbysgod;
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Penaethiaid Grwp Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru.

18.2 Cadarnhâi cofnodion cyfarfodydd grwp cyswllt y cafwyd presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau cydweithio gweithredol â:

- Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr;
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Y Gwasanaeth Hylendid Cig;
- LACORS (Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio yr Awdurdodau Lleol);
- DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig);
- CEFAS (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu);
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol.

19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd gan Adain Iechyd yr Amgylchedd weithdrefn ddogfenedig, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002, ar gyfer monitro ansawdd a chysondeb arolygiadau hylendid bwyd a chanlyniadau arolygu, er nad oedd yn cynnwys holl agweddau'r gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd.

19.2 Fel rhan o'r weithdrefn, aethai Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ar ymweliad arolygu gyda phob swyddog yn flynyddol, a chynhwysai raglen o arolygiadau ar y cyd lle'r oedd adolygu gan gydradd. Hefyd, gwnâi Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd archwiliadau ffeil sampl yn flynyddol ar gyfer pob swyddog.

19.3 Dangosai cofnodion fod y weithdrefn fonitro'n cael ei gweithredu, ac y defnyddid canlyniadau i helpu gwella cyflwyno'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, cychwynnodd yr Awdurdod archwilio ei weithgareddau yn erbyn gweithdrefnau dogfenedig, a'i fwriad oedd defnyddio'r canlyniadau yn asesiad o gysondeb mewnol.

19.4 Ym mis Rhagfyr 2002, cynhaliodd y tîm hylendid bwyd ymarferiad cysondeb o ran Cynllun Gwobr Hylendid Bwyd Cymru.

19.5 Monitrwyd ymlyniad wrth ddangosyddion perfformiad drwy adroddiadau i Bwyllgorau Archwilio corfforaethol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o fonitro ymlyniad wrth y rhaglenni arolygu arfaethedig, o fonitro rhoi blaenoriaeth i arolygu safleoedd uchel eu risg, nac o fonitro cymwyseddau HACCP swyddogion, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

19.6 Cynhwysid monitro mewnol yn Llawlyfr Ansawdd yr Adain Safonau Masnach. Roedd tystiolaeth y cynhelid ychydig o fonitro meintiol ar gyfer safonau bwyd. Hefyd, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr safonau masnach. Dywedwyd wrth yr archwilwyr am weithgareddau eraill, gan gynnwys asesu cofnodion arolygu a thrafodaethau dilynol â swyddogion, a gwiriadau perfformiad misol. Fodd bynnag, ni chedwid cofnod o'r digwyddiadau hyn.

19.7 Cyfarfu Rheolwyr o'r Adran Weinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn fisol i drafod materion, gan gynnwys cyflwyno gwasanaeth.

Argymhellion

19.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn ei weithdrefn monitro mewnol ddogfenedig, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiad â holl agweddau perthnasol Y Safon, deddfwriaeth, Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2]

(iii) Sicrhau y cofnodir yr holl fonitro mewnol a chadw'r dogfennau hynny am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf. [Y Safon – 19.3]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cyfranogi yn adolygiad dogfennau ac archwiliad o gydymffurfio rhyng-awdurdod hylendid bwyd Cymru gyfan ym mis Hydref 1999, ac roedd wedi cynhyrchu cynllun gweithredu.

20.2 Hefyd, bu Adain Iechyd yr Amgylchedd ac Adain Safonau Masnach yn destun adolygiad annibynnol yn rhan o raglen wella gorfforaethol yr Awdurdod.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Yn 2003, datblygodd yr Awdurdod ddeunydd yn Gymraeg ar sail llenyddiaeth Foodlink i hyrwyddo pwysigrwydd golchi dwylo. Targedwyd sefydliadau addysgiadol gan yr ymgyrch, a chynhwysai gystadleuaeth llunio poster, pecyn adnoddau i athrawon, a dosbarthu taflenni gwybodaeth. Yn ystod ymgyrch 2004 ynghylch atal trosglwyddo germau, anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol. Dosbarthwyd amrywiaeth o eitemau hyrwyddo a thaflenni mewn archfarchnadoedd lleol ac roedd llyfrnod addysgiadol, a ddatblygwyd gan yr Awdurdod, ar gael mewn Adeiladau Dinesig a sefydliadau addysg.

21.3 Cynhwysai tystiolaeth o weithgareddau eraill:

- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru;
- Defnyddiwr ifanc y flwyddyn;
- Hyrwyddo'r gwasanaeth ar y wefan;
- Trafodaethau â grwpiau defnyddwyr;
- Dosbarthu taflenni.

21.4 Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weithgarwch hyrwyddo o ran bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

21.5 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgarwch hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: **Jane Davies**
Rob Wilkins
Lindsay Horth
Alwyn Williams
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.

Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn

	busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.

Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.